Atodiad 4

**Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Chweched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

Ebrill 2017 hyd at Fawrth 2020

# Ffurflen datganiad profforma blynyddol: Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020

## Canllawiau

Mae'r ffurflen i'w llenwi ar 3 taflen waith, ynghyd â dogfen Word. Dylai awdurdodau nodi'r canlynol:

Mae'r ddogfen *Diffiniadau a chanllawiau ar gyfer casglu data a'i gyflwyno* yn rhoi arweiniad ar lenwi'r ffurflen.

Pan fo data wedi'i gynnwys yn y ffurflen flynyddol i CIPFA, dylid defnyddio'r un ffigwr ar gyfer y ffurflen hon.

Y celloedd hynny sydd angen data yw'r unig rai y gellir eu dewis; mae'r rhannau eraill yn lled-dywyll. Gellir defnyddio'r fysell tab i symud ymlaen i'r gell nesaf sydd ar gael.

Mae MALD yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth o'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen flynyddol i gynorthwyo gyda'r broses asesu.

### Cyd-destun

Mae'r daflen hon yn gofyn am ychydig o fanylion disgrifiadol am yr awdurdod, ynghyd â manylion cysylltu â'r person y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ato/ati.

### Hawliau Craidd

Mae'r daflen hon yn ymdrin â hawliau craidd y cyhoedd. Mae cwymplen i'r awdurdodau ddewis eu lefel cydymffurfio â phob hawl (wedi'i hunanasesu), a dylid rhoi unrhyw wybodaeth bellach yn y gofod a ddarparwyd yn ôl yr angen.

### Dangosyddion Ansawdd

Mae'r daflen hon yn ymwneud ag 12 o ddangosyddion ansawdd safonau llyfrgelloedd cyhoeddus. O ran rhai dangosyddion, mae'n rhaid i awdurdodau gofnodi'r data craidd y mae'r safonau meintiol yn deillio ohono; bydd y cyfrifo wedyn yn digwydd yn awtomatig.

O ran y safonau hynny sydd â thargedau meintiol, caiff atebion eu cymharu â'r targed a osodwyd, a rhoddir rhyw awgrym a yw'r safon honno wedi'i chyrraedd ai peidio. Mae gofod wedi'i adael i chi roi sylwadau; anogir awdurdodau sy'n methu â chyrraedd y targedau i ddefnyddio'r gofod hwn i nodi unrhyw amgylchiadau lliniarol, a chynlluniau ar gyfer gwella yn y dyfodol.

Dylid rhoi ffigwr cymaradwy ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2019 ar gyfer pob Dangosydd Ansawdd a adroddir yn flynyddol. Mae gofod wedi'i ddarparu i awdurdodau roi sylwadau ar unrhyw ddirywiad yn eu perfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Dylid rhoi'r ffigyrau diweddaraf sydd ar gael o ran y Dangosyddion Ansawdd hynny sydd ond eu hangen unwaith bob tair blynedd, a dylid rhoi dyddiad casglu'r data yn y gofod a roddwyd.

## Cyflwyno

| | |
|---|---|
| Ar ôl llenwi'r ffurflen, dylid ei dychwelyd drwy e-bost i MALD: | mald@llyw.cymru |
| Dyddiad olaf derbyn ffurflenni: | **Dydd Mawrth 01 Medi 2020** |
| I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag: | Amanda Bennett<br>Amanda.bennett@llyw.cymru<br>0300 062 2095 (llinell uniongyrchol)<br>0300 062 2112 (prif rif MALD)<br>Carys Dawson<br>Carys.Dawson2@llyw.cymru<br>0300 062 2095 (llinell uniongyrchol)<br>0300 062 2112 (prif rif MALD) |